**CYNGOR CYMUNED LLANWINIO COMMUNITY COUNCIL**

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanwinio nos Fercher y 4ydd o Fawrth 2026 am 8.00pm yn Neuadd Llanwinio.

**PRESENNOL**: Cynghowyr Sarah Pask (Cadeirydd), Iori Saer, Wyn Evans, Elgan Williams,

**YMDDIHEURIADAU**: Cynghowyr Huw James, Dorian Lewis, Christopher Smoothy & Y Cynghorydd Sir Jean Lewis

**CYMHERWYD Y COFNODION GAN Y CLERC**: Liza Jones

**2: COFNODION**: Roedd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 7fed o Ionawr 2026 wedi ei dosbarthu cyn y cyfarfod, fe'u derbyniwyd a'u cofnodi fel rhai cywir.

**3. DATGAN BUDD:** Dim

**4: MATERION YN CODI:**
Nid oedd y cwlfert agor ger Blanffynnon wedi cael sylw. Byddai'r clerc yn gofyn i'r Cynghorydd Sir Jean Lewis am ddiweddariad.
Roedd yr arolwg diogelwch wedi ei gwblhau ar y Parc ond nid oedd yr adroddiad wedi cael ei dderbyn.
Roedd y clerc wedi adrodd fod gwifren Ffôn yn y clawdd/ffos ger Blaenffynnon ond nid oedd wedi ei atgyweirio. Byddai'r clerc yn dilyn hyn i fyny.
Roedd y Cynghorydd Sir Jean Lewis wedi adrodd ei bod wedi cyfarfod gyda swyddogion o'r Cyngor Sir parthed â charthu yr Afon Sien ger Post House, Cwmbach ar y safle agn gadarnhau byddai'r gwaith yn cael ei wneud yn fuan.
Roedd y clerc wedi ffonio'r Cyfreithwir â oedd wedi ymddiehurio nad oedd y gwaith wedi cael ei gyflwyno ym mis Ionawr. Byddai'r clerc yn dilyn hyn i fyny mewn tair wythnos.
Byddai'r clerc yn gofyn am ddiweddariad trwy'r Cynghorydd Sir parthed y biniau halen, tipio anghyfreithlona phont Cwmfelinmynach.
Roedd y tyllau ar yr heol ger Capel Moriah wedi cael eu atgyweirio ond roedd y safon yn wael iawn a codwyd pryder am ddiffyg uwcharolygaeth ac archwilio.
Darganfyddwyd grant hyd at £15,000 am system wresogi o ffynnhonnell aer gan y clerc. Cytunwyd aros tan y flwyddyn ariannol neasf.

**5: RHODDION:**
Derbyniwyd ceisiadau wrth Eisteddfod yr Urdd, Ambiwlans Awyr Cymru a C Ff I Sir Gâr am gymorth ariannol. Cytunwyd i roi £100 yr un.

**6: ARCHWILYDD MEWNOL AM 2026-27:**
Cytunwyd yn unfrudol ofyn i Rosemarie Davies am ymwneud a'r Gwaith.

**7: CINIO BLYNYDDOL:**

Cytunwyd cynnal y ginio blynyddol yn Nhafarn Crymych ar yr 8fed o Fai.

**8: RHENT TIR:**
Gan fod cynnydd yn y rhent wedi bod llynnedd, ac y sefyllfa ansefydlog yn y byd, cytunwyd i gadw'r rhent fel llynnedd. £60 yr erw i bawb heblaw am £50 yr erw i Maengwynhir a £20 y flwyddyn y Blaenllain.

**9: GOHEBIAETH:**

**A** – Darllennwyd a thrafodwyd Adroddiad Casgliad Archwilwyr Cymru am y flwyddyn 2024-25.

**B** – Darllennwyd yr adrannau priodol o'r Adroddiad Blynyddol ar Gydnabyddiaeth 2026-27.

**C** – Derbyniwyd llythyr o ddiolch wrth Y Cardi Bach.

**10: DERBYNIADAU:**
Llôg - £17.71

**11: BILIAU:**
Banc Lloyds – Costau Banc - £4.25 (talwyd d/u)
Dŵr Cymru – Caeau Blaenwaun - £198.78 (talwyd d/u)
Cyngor Sir Gâr – Adnewyddu goleuadau stryd - £333.60
Un Llais Cymru – Aelodaeth - £94

Cytunwyd i dalu'r ddwy anfoneb.

**12: ADRODDIAD ARIANNOL:**

| | |
|---|---|
| Cyfrif Busnes | £3,161.08 |
| Cyfrif Trysorydd | £19,015.64 |
| **Cyfanswm o** | **£22,176.72** |

**13: CYNLLUNIO:**
PL/10407 – Fferm Lion, Blaenwain – Adeilad Amaethyddol ar gyfer anifeiliad Diciau
Codwyd pryderon am ei leoliad mor agos i'r parc a chaeau chwarae ond roedd dyddiad cau am sylwadau wedi mynd heibio.

**14: Unrhyw fater arall:**
Nodwyd fod y bont troedffordd ger Rhydgoch wedi cael ei ddifrodi mewn stormydd ac roedd nawr tua 10M i lawr yr afon ac ar ei ochr. Byddai'n cael ei adrodd i'r Cyngor Sir.
Gofynwyd i'r clerc geisio am goed o'r Ymddiriedolaeth Coed os oedd rhai ar gael.
Roedd y tractor wedi cael ei olchi, iro ac ei roi gadw tan yr Hâf.
Byddai'r clerc yn edrych am gyfleodd ariannu tuag at eitemau Newydd i'r parc yn lle y rhai a oedd wedi pydru.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fercher y 6ed o Fai am 8:00pm yn Neuadd Gymunedol Llanwinio ar yr amod fod y Cyfrifon wedi cael ei archwilio gan yr archwilydd mewnol.**